Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Criccieth
# Ysgol Treferthyr
# Criccieth
# Gwynedd
# LL52 0DS

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/02/2013**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Criccieth wedi bod yn darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg i dref Criccieth ei hun a'r ardal wledig o'i chwmpas ers dros ddeng mlynedd ar hugain. Ym marn y lleoliad, nid yw'r ardal a wasanaethir ganddo yn un ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Bydd y lleoliad yn cyfarfod yn ystafell ddosbarth plant meithrin Ysgol Treferthyr, Criccieth. Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i’r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol nac o dras ethnig yn mynychu’r lleoliad.

Darperir sesiynau o ddwy awr a hanner am bum prynhawn yr wythnos ar gyfer plant dyflwydd i bedair oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Ar hyn o bryd, mae un deg chwech plentyn wedi'u cofrestru yn y lleoliad gydag un ohonynt yn cael ei ariannu gan yr awdurdod lleol.

Cymraeg yw’r iaith a siaredir gartref gan oddeutu chwarter y plant gyda'r gweddill yn siarad Saesneg er bod llawer ohonynt ag un rhiant yn siarad Cymraeg. Nid oes yr un plentyn yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Prif gyfrwng addysgu a dysgu’r lleoliad yw Cymraeg.

Mae dwy ymarferydd llawn-amser yn cefnogi addysg y plant yn ogystal ag un ymarferydd arall sydd wrth law i lenwi bwlch yn ôl yr angen. Mae pob ymarferydd gyda chymwysterau priodol ar gyfer addysgu’r blynyddoedd cynnar.

Wedi iddynt orffen eu cyfnod yn y lleoliad, bydd bron pob plentyn yn parhau gyda’u haddysg yn Ysgol Gynradd Treferthyr.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal yn 2011 a chan Estyn yn 2007.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella’r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- profiadau dysgu ysgogol yn bodloni anghenion a diddordebau'r holl ystod o blant yn llwyddiannus;
- darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
- ffocws cryf ar ddatblygu'r Gymraeg;
- amrywiaeth o weithgareddau diddorol yn rhoi cyfle i bob plentyn i fod yn weithredol yn ei ddysgu;
- trefniadau asesu yn hylaw ac effeithiol a'r wybodaeth yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol er mwyn cynllunio'r camau nesaf mewn dysgu; a'r
- ymarferwyr yn ofalus iawn o'r plant ac yn sicrhau bod y lleoliad yn fan cyfforddus, cartrefol a diogel ar eu cyfer.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer ei ddatblygiad;
- trefniadau cadarn ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith;
- hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella, ar y cyfan, o ansawdd da;
- ymarferwyr yn agored i syniadau newydd a gwahanol ffyrdd o weithio;
- ystod eang o weithgareddau partneriaethau yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant; ac
- amser ac arbenigedd staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

## Argymhellion

A1. Datblygu trefniadau hunan-arfarnu ymhellach.

A2. Cryfhau'r trefniadau ar gyfer gwerthuso staff.

A3. Darparu mwy o gyfleoedd i blant ddysgu am gynaladwyedd.

A4. Sefydlu ardal ddysgu y tu allan.

### Beth sy’n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu ysgogol yn bodloni anghenion a diddordebau'r holl ystod o blant yn llwyddiannus ac yn eu galluogi i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd priodol ar draws pob maes dysgu. Mae dysgu wedi eu seilio ar gynlluniau cwricwlaidd defnyddiol sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn gryf ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol plant. Wrth ddilyn thema 'Y Gofod,' caiff yr amgylchedd dan do ei ddefnyddio'n ddychmygus gan ymarferwyr i sbarduno diddordeb plant a'u hannog i arbrofi â phrofiadau newydd. Mae'r cyfleoedd mynych a gaiff plant i ddilyn trywydd dysgu eu hunain ac i wneud dewisiadau personol yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at ddatblygiad unigolion fel dysgwyr annibynnol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn gydlynus ac wedi'u hymgorffori'n gadarn ym mhrofiadau dysgu pob plentyn. Trwy amrediad eang o weithgareddau megis chwarae rôl, gwrando ar storïau a gwneud marciau, caiff plant gyfleoedd gwerthchweil i ddatblygu eu medrau llythrennedd ar draws pob maes cwricwlaidd. Mae darpariaeth gynhwysfawr yn ogystal ar gyfer datblygu medrau rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae ffocws clir yn yr ardaloedd dysgu ar gyfrif, trin a didoli gwrthrychau ac mae'r amrywiaeth dda o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a ddarperir yn cynnig nifer o bosibiliadau cyffroes i'r plant. Mae natur ymchwiliol nifer helaeth o'r gweithgareddau yn rhoi cyfleoedd buddiol iawn i blant ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau.

Mae'r ffocws cryf a roddir ar ddatblygu'r iaith Gymraeg ynghyd â'r cymorth ychwanegol a ddarperir i ddysgwyr yr iaith, yn cynyddu hyder a hyfedredd dysgwyr yn y Gymraeg yn sylweddol.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o ddiwylliant, gwyliau a thraddodiadau Cymru yn llwyddiannus ac yn rhoi cyfleoedd da iddynt ddysgu am eu rôl fel dinasyddion byd-eang. Fodd bynnag, prin yw'r sylw a roddir i gynaladwyedd, ailgylchu ac arbed ynni yng ngweithdrefnau dydd-i-ddyd y lleoliad.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth drwyadl o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae pob ymarferydd yn rhyngweithio'n rhwydd iawn â phlant ac yn disgwyl llawer gan bob un ohonynt, waeth beth fo'u gallu na'u hoedran. Trwy gyd- gynllunio manwl, llwydda ymarferwyr i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau diddorol sy'n rhoi cyfle i bob plentyn i fod yn

weithredol yn ei ddysgu. Crëir cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a rhai gaiff eu harwain gan oedolion. Mae'r amrywiaeth eang o strategaethau addysgu a ddefnyddir ynghyd â'r pwyslais sylweddol a roddir ar ddysgu trwy chwarae, yn sicrhau ymglymiad pob unigolyn i'r dasg dan sylw. Yn ystod sesiynau, mae ffocws clir i gymorth ac ymyrraeth ymarferwyr. Maent yn fodelau iaith da eu hunain ac yn defnyddio holi yn grefftus er mwyn herio syniadau plant a symud dysgu yn ei flaen.

Mae'r trefniadau ar gyfer asesu ac asesu ar gyfer dysgu yn hylaw ac yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda a chyda dealltwriaeth drylwyr o'r hyn maent wedi'i gyflawni a'r hyn mae angen iddynt ei wneud i wella. Cedwir cofnod parhaus defnyddiol o gynnydd plant ym mhob maes dysgu a defnyddir y wybodaeth yn bwrpasol er mwyn cynllunio'r camau nesaf mewn dysgu. Mae trefniadau addas ar gyfer cynnwys rhieni yn asesiadau eu plant a sicrhau bod ganddynt wybodaeth dda am gynnydd eu plant a'r hyn y gallant hwy ei wneud i'w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ymarferwyr yn ofalus iawn o'r plant ac yn sicrhau bod y lleoliad yn fan cyfforddus, cartrefol a diogel ar eu cyfer. Anogir plant i weld y lleoliad fel cymuned lle mae pobl yn dysgu byw gyda'i gilydd yn gytûn. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau. Caiff arferion bwyta'n iach ynghyd â hylendid ac ymarfer corff, eu hyrwyddo' llwyddiannus a'u cefnogi'n dda gan y rhieni.

Yn ystod eu hymwneud dyddiol â phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio'n gryf yr angen i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, i fod yn onest a theg ac i ymddwyn mewn ffordd gyfrifol. Mae hyn yn help mawr i'r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn. Mae'r cyfleoedd rheolaidd i blant ymgymryd â chyfrifoldebau ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae'r trefniadau sefydlu effeithiol yn helpu plant i ymgartrefu'n gyflym a didrafferth yn y lleoliad. Mae gan y lleoliad bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae dealltwriaeth dda gan yr ymarferwyr ynghylch sut i gael mynediad at gymorth proffesiynol i blant a rhieni. Caiff anghenion dysgu plant, ac yn arbennig rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, eu nodi'n fanwl pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad. Gwna'r ymarferwyr yn siŵr bod yr anghenion hynny'n cael eu bodloni.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau ar ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd angenrheidiol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Llwydda'r lleoliad i greu amgylchedd cartrefol ac ysgogol lle y gall plant fanteisio'n llawn ar eu profiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae'r lleoliad yn elwa'n sylweddol o gael defnyddio ystafell dosbarth meithrin yr ysgol yn y prynhawniau. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Cânt eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Drwy ddefnyddio buarth chwarae a neuadd yr ysgol, mae’r lleoliad yn ychwanegu’n sylweddol at ddatblygiad corfforol plant. Gwna’r ymarferwyr ddefnydd effeithiol o’r parc lleol i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae’r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n llawn.

Fodd bynnag, mae'r diffyg ardal chwarae gaeedig y tu allan yn cyfyngu ar ehangder y profiadau dysgu gellir eu darparu i'r plant.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer datblygiad y lleoliad. Mae’n cyfleu disgwyliadau uchel ac yn cefnogi ac yn herio pawb i ymdrechu orau gallant. Mae ethos cadarnhaol yn treiddio drwy'r lleoliad gyda phlant a staff yn teimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n agos iawn fel tîm, maent yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu, ymddygiad a pherthynas ac yn gwneud yn siŵr bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Mae eu parodrwydd i ymgymryd â blaenoriaethau cenedlaethol a mentrau newydd megis asesu ar gyfer dysgu, yn gryfder. Mae nodau a pholisïau clir wedi’u sefydlu sy'n canolbwyntio ar anghenion plant ac yn cael eu gweithredu’n gydwybodol. Mae'r berthynas gyda’r plant a'r rhieni yn gadarnhaol ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at greu ymdeimlad o gymuned. Er bod gweithdrefnau gwerthuso staff wedi'u sefydlu, nid ydynt ar hyn o bryd, yn cynnwys gwerthusiad o berfformiad yr arweinydd.

Er mai bychan iawn yw aelodaeth y pwyllgor rheoli, mae'r aelodau yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol iawn. Maent yn rhannu gwybodaeth gyda'r rhieni drwy gylchlythyrau a chyfarfodydd ac yn cefnogi'r arweinydd yn ei gwaith. Bydd y pwyllgor yn gwneud yn siŵr bod unrhyw gwynion yn cael eu datrys yn brydlon a bod y lleoliad yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol. Fodd bynnag, ni chymerant rôl ddigon gweithredol yn nhrefniadau hunan-arfarnu'r lleoliad.

**Gwella ansawdd: Da**

Er bod hunan-arfarnu yn ei ddyddiau cynnar o ddatblygiad, mae eisoes wedi arwain at welliannau mewn safonau a darpariaeth. Mae'r arweinydd yn gwybod beth yw cryfderau’r lleoliad a’r meysydd i’w datblygu ac mae'n annog staff i hunan-arfarnu’n barhaus ac archwilio ffyrdd i wella. Mae trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant. Wrth hunan-arfarnu, rhoir ystyriaeth ofalus i farn rhieni a manteisia’r lleoliad yn sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes gefnogol yr awdurdod lleol. Drwy sgyrsiau anffurfiol, rhoddir cyfleoedd i'r plant yn ogystal i fynegi barn ar eu profiadau dysgu yn y lleoliad. Gall ymarferwyr ddangos yn eglur sut maent, trwy hunan-arfarnu, wedi gwella’r ddarpariaeth a chodi safonau cyflawniad a lles plant. Mae'r gwelliant yn ansawdd cynllunio ac yng nghynnydd plant yn y Gymraeg yn enghreifftiau da o ddatblygiadau diweddar.

Mae’r adroddiad hunan-arfarnu, ynghyd â’r cynllun gwella, ar y cyfan, o ansawdd da ac yn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad y lleoliad. Caiff y blaenoriaethau a nodir eu gweithredu’n systematig a thrylwyr gan yr arweinydd a’r ymarferwyr. Fodd bynnag, ni roddir digon o sylw i arfarnu llwyddiant ac effeithiau'r blaenoriaethau.

Caiff ymarferwyr gefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a’r Mudiad Meithrin. Mae hyn wedi’u galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno’r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae’r sesiynau hyfforddi hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr rannu eu harfer gydag ymarferwyr o leoliadau eraill.

Mae'r lleoliad yn datblygu’n dda fel cymuned ddysgu gref. Mae'r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio a rhannu gwybodaeth a syniadau ymhlith ei gilydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaethau yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant. Mae'r bartneriaeth gynhyrchiol iawn sydd gyda'r ysgol gynradd yn hwyluso trefniadau trosglwyddo yn sylweddol. Manteisia’r lleoliad yn fawr ar ddefnyddio adnoddau a chyfleusterau'r ysgol megis y neuadd a'r buarth, ac ar rannu profiad gydag athrawon y Cyfnod Sylfaen. Mae cysylltiadau addas gyda nifer cyfyngedig o sefydliadau'r gymuned leol. Mae’r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni ym mhob agwedd o waith y lleoliad trwy eu hysbysu'n rheolaidd am yr holl weithgareddau a’u hannog i gyfranogi yn addysg eu plant.

Mae ymweliadau, adroddiadau a chyngor proffesiynol cyson athrawes gysylltiol yr awdurdod lleol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad y lleoliad. Mae’r arweinydd hefyd yn derbyn cefnogaeth reolaethol fuddiol gan swyddog datblygu’r Mudiad Meithrin.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd, os bydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Defnyddir y staff yn effeithiol i wneud y defnydd gorau posib o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad. Mae gan yr arweinydd a thrysorydd y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth fanwl o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n hynod o ofalus gan yr arweinydd i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, cynnydd a lles plant.

Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**
Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |